

CABINET

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd, 2025.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Y Cynghorwyr R.M. Birch, G. John, S.D. Perkes, S. Sivagnanam, E. Williams ac M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr A. Asbrey a Dr. I.J. Johnson

C124 CYHOEDDIAD –

Dechreuodd yr Arweinydd drwy sôn am rai materion cadw tŷ a dywedodd fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ei recordio a'i uwchlwytho i wefan Cyngor Bro Morgangwg cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod.

C125 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd B.E. Brooks.

C126 COFNODION –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hydref, 2025 fel cofnod cywir.

C127 DATGANIADAU O FUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

C128 FFORWM YMGYNGHOROL AR Y CYD –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Fforwm Ymgynghorol ar y Cyd a gynhaliwyd ar 22 Medi 2025.

Cafwyd trafodaeth eang ar faterion a oedd yn cynnwys Diweddariadau Rhwydwaith Staff, Strategaeth y Bobl a'r Rhaglen Ail-lunio.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi cofnodion cyfarfod y Fforwm Ymgynghorol ar y Cyd a gynhaliwyd ar 22 Medi 2025.

Rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r cofnodion.

**C129 DIWEDDARIAD AR FENTRAU CYDWEITHIO STRATEGOL (AG/BA)
(CRAFFU – PWYLLGOR CRAFFU ADNODDAU) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ar fentrau cydweithio strategol y Cyngor a cheisiodd gymeradwyaeth i newid sut y byddai'r gweithgaredd hwnnw'n cael ei integreiddio i fecanweithiau eraill yn y dyfodol.

Roedd y Crynodeb o Fentrau Gwaith Strategol (Atodiad A) yn rhoi manylion am y gweithgaredd cydweithio yr oedd y Cyngor yn ei ymgymryd ag ef gyda phartneriaid ledled Cymru.

Ymhellach i'r penderfyniad o dan Gofnod Rhif C116 o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2025, cynigiwyd ymhellach gynnwys cofnodion cyfarfodydd eraill y mae'r Cabinet yn eu hystyried yn rheolaidd fel rhan o'r un adroddiad chwarterol i'r Cabinet a fyddai'n rhoi trosolwg o holl Gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor a gynhaliwyd a dolenni i'r cofnodion perthnasol.

Dywedodd y Cynghorydd Williams fod cydweithio ag ystod eang o bartneriaid yn bwysig er budd trigolion Bro Morganwg. Ychwanegodd y Cynghorydd Wilson fod gweithio gyda phartneriaid hefyd yn darparu enghreifftiau o arfer gorau ac yn aml roedd Cyngor Bro Morganwg yn arwain y sector ar draws nifer o feysydd.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

- (1) Y dylid nodi'r mentrau cydweithio strategol a oedd ar waith i gefnogi darparu a datblygu gwasanaethau'r Cyngor a chanlyniadau ac amcanion lles y Cyngor.
- (2) Y dylid nodi cyfleoedd pellach ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn unol â'r blaenoriaethau yn y Dyffryn 2030 a oedd yn cael eu harchwilio fel rhan o'r Rhaglen Ail-lunio.
- (3) Y dylid cymeradwyo'r cynnig i fentrau cydweithio strategol gael eu hymgorffori yn y prosesau Hunanasesiad Blynyddol a Chynllunio'r Gyfarwyddiaeth yn y dyfodol a'u hadrodd drwyddynt.
- (4) Y dylid, ymhellach i'r penderfyniad o dan Gofnod Rhif C116 o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2025, gynnwys cofnodion cyfarfodydd eraill y mae'r Cabinet yn eu hystyried yn rheolaidd fel rhan o adroddiad chwarterol i'r Cabinet.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am fentrau cydweithio strategol.
- (2) Galluogi archwilio neu gryfhau cyfleoedd partneriaeth pellach.
- (3) Rhoi trosolwg o'r mentrau gweithio strategol yr oedd pob Cyfarwyddiaeth yn rhan ohonynt ochr yn ochr â gwybodaeth am fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor mewn ffordd integredig, gan adlewyrchu natur annatod partneriaethau wrth ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau'r Cyngor.
- (4) Cyflwyno adroddiad i'r Cabinet bob chwarter a fyddai'n rhoi trosolwg o holl Gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor yr oedd Cyngor Bro Morganwg yn aelod ffurfiol ohonynt a dolenni i'r cofnodion perthnasol.

C130 ADRODDIAD CENEDLAETHAU'R DYFODOL AC ADRODDIAD ARCHWILIO CYMRU - DIM AMSER I'W GOLLI: GWERSI O'N GWAITH O DAN DDEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (AG/BA) (CRAFFU – PWYLLGOR CRAFFU ADNODDAU) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i ystyried Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ac Adroddiad Archwilio Cymru - Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r ymatebion drafft i'r argymhellion yn y ddau adroddiad.

Gofynnwyd i'r Cyngor wneud sylwadau penodol ar yr argymhellion a oedd ar gyfer cyrff cyhoeddus ac i nodi statws, gydag Atodiad B i'r adroddiad yn manylu ar yr holl argymhellion. Roedd rhai o'r argymhellion yn fwy heriol nag eraill ac fe'u hadlewyrchwyd yn yr ymatebion perthnasol.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

- (1) Y dylid nodi canfyddiadau ac argymhellion Adroddiad Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol a chymeradwyo'r ymateb drafft fel y'i nodir yn Atodiad A ac Atodiad B i'w gyflwyno i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
- (2) Y dylid nodi canfyddiadau ac argymhellion adroddiad Archwilio Cymru 'Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' ochr yn ochr ag Adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r ymateb drafft sydd ynghlwm fel Atodiad A ac Atodiad B.
- (3) Y dylid rhannu'r adroddiad gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phob Cyngor Tref a Chymuned ym Mro Morganwg.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Er mwyn galluogi'r Cabinet i ystyried yr adroddiad a chyflwyno ymateb i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ynghylch yr argymhellion yn adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025.
- (2) Er mwyn galluogi'r Cabinet i ystyried adroddiad Archwilio Cymru ac ymateb i'r argymhellion.
- (3) Er mwyn galluogi partneriaid i ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiadau ac ymateb y Cyngor.

C131 DIWEDDARIAD BLYNYDDOL CYNLLUN RHEOLI ASED AU CORFFORAETHOL 2025 (AB/BA) (CRAFFU – PWYLLGOR CRAFFU ADNODDAU) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ar berfformiad yn erbyn targedau Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol (CAMP) 2023-28.

Roedd paragraff 2.7 o'r adroddiad yn manylu ar symud timau o amgylch y Cyngor fel rhan o raglen waith Eich Lle gyda'r nod o resymoli adeiladau swyddfa Cynradd y Cyngor, gyda manylion pellach wedi'u cynnwys yn y Traciwr Gweithredu Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol sydd ynghlwm fel Atodiad A i'r adroddiad.

Drwy roi diweddariad, cyfeiriodd y Cynghorydd John at Eitem 3 o Amcan 2 ar Dudalen 7 o Atodiad A a oedd yn cyfeirio at gyfleoedd i waredu eiddo dros ben, yn benodol Parc Stradling yn Llanilltud Fawr a oedd bellach wedi'i drosglwyddo'n llwyddiannus o Gyngor Bro Morganwg i Gyngor Tref Llanilltud Fawr, gydag un mater heb ei ddatrys yn ymwneud â chofrestru'r parc gyda Fields in Trust.

Hefyd, cyfeiriodd y Cynghorydd John at Eitem 2 o Amcan 4 ar Dudalen 11 o Atodiad A, yn ymwneud â throsglwyddo cyfleusterau chwaraeon i glybiau addas. Roedd Cae Athletau Penarth a Chlwb Rygbi Hen Benarthiaid yn parhau i fod heb eu cwblhau oherwydd ystyriaethau cyfreithiol ac roedd trafodaethau'n parhau ynghylch Dinas Powys a Pharc Seel. Roedd trosglwyddiad Clwb Bowlio'r Rhws wedi'i gwblhau ac roedd Colwinstone yn symud ymlaen.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson ei bod yn bwysig sicrhau bod y Cyngor yn gwirio ei asedau'n rheolaidd i sicrhau gwerth am arian, eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r ddeddfwriaeth gyfredol a bod amser staff yn cael ei wneud y mwyaf o amser i sicrhau y gallent wasanaethu trigolion Bro Morganwg.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD – Y dylid cymeradwyo'r cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau a osodwyd gan Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2023-2028 fel y disgrifir yn yr adroddiad ac Atodiad A.

Rheswm dros y penderfyniad

Diweddarau'r Cabinet ar y cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2023-2028.

C132 PORTH GORLLEWINOL CANOL TREF Y BARRI – DIWEDDARIAD (DA/LC) (CRAFFU – PWYLLGOR CRAFFU LLE) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch prosiect Porth Gorllewinol Canol Tref y Barri.

Roedd paragraff 1.5 o'r adroddiad yn manylu ar y cynigion gwreiddiol ar gyfer Cyfnod 1 a 2, cyn i gynllun costau ar gyfer y prosiect gael ei baratoi gan AECOM ym mis Tachwedd 2024 a ddangosodd ddiffyg mewn cyllid ar gyfer elfen iechyd y safle. Teimlwyd nad oedd cyflwyno cynllun tai heb y cyfleuster iechyd hwnnw o fudd i ganol y Barri. Gyda llety i bobl hŷn uwchben a chyfleuster gofal ychwanegol ar draws y ffordd, ystyriwyd bod canolfan iechyd a gofal cymdeithasol yn gyfle i wneud i'r safle weithio o hyd a chreu model mwy cydweithredol o ofal cymdeithasol ac iechyd a fyddai'n gwasanaethu pobl y Barri yn fwy effeithiol.

Dywedodd y Cynghorydd Williams y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar drigolion Bro Morganwg ac yn dangos ymrwymiad y Cyngor i weithio gyda'r Bwrdd Iechyd i wella'r ddarpariaeth neu'r gwasanaethau.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid cymeradwyo datblygu cynllun diwygiedig ar gyfer Cam 1 o brosiect adfywio Porth Gorllewinol Canol Tref y Barri, sy'n ymwneud â Safle Cyfansoddyn Pont Ffordd Gladstone, i gynnwys canolfan iechyd a gofal cymdeithasol a thai fforddiadwy, yn amodol ar y darpariaethau deddfwriaethol priodol, caniatâd statudol a chyllid.

(2) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Lle (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol ac Aelod y Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy, y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Phennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151) i drafod a chytuno ar delerau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i'r Cyngor brynu'r buddiant rhydd-ddaliadol yn Safle Clinig Stryd Eang yn unol ag egwyddorion ac arferion gorau Protocol Cydlynu Ystadau a Throsglwyddo Tir Llywodraeth Cymru.

(3) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Lle (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol ac Aelod y Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy, y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Phennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151) i drafod a chytuno ar delerau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gyfer darparu'r ganolfan iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys unrhyw gytundebau/trafodion tir a allai fod yn ofynnol i'w hwyluso, megis gwaredu lle o fewn y datblygiad yn y dyfodol i ddarparu ar gyfer y ganolfan iechyd a gofal cymdeithasol (trwy rinwedd pryddles hir, neu fel arall).

(4) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr y Lle (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol ac Aelod y Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy, y Prif Weithredwr a Phennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151) i gyflwyno a derbyn ceisiadau grant i sicrhau cyllid tuag at gost y prosiect.

(5) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu i gaffael a phenodi tîm dylunio ac ymgynghorwyr eraill yn ôl yr angen i gyflawni'r prosiect, yn amodol ar gyllid.

(6) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol ac Aelod y Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy, y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Lle) i gyflwyno cais(iau) cynllunio ar gyfer y prosiect yn rhinwedd Rheoliad 3 neu Reoliad 4 o Reoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992 (Fel y'u Diwygiwyd).

(7) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i baratoi, gweithredu a chwblhau'r holl ddogfennaeth gyfreithiol sy'n ofynnol i gaffael a gwaredu tir a chaffael a hwyluso cyflawni'r prosiect.

(8) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i ddatblygu cynllun busnes a gwasanaeth priodol (mewn ymgynghoriad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, lle bo'n briodol), ar gyfer dyfodol y ganolfan iechyd a gofal cymdeithasol.

(9) Y dylid rhoi awdurdod i Gyfarwyddwr y Lle i gyfeirio'r prosiect at Fwrdd Tref y Barri er gwybodaeth.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Cael cymeradwyaeth gan y Cabinet ar gyfer prosiect adfywio Porth Canol Tref y Barri i'w gyflawni yn amodol ar ganiatâd statudol a chyllid.

(2) Cael awdurdod i brynu budd rhydd-ddaliadol Safle Clinig Stryd Eang.

(3) Cael awdurdod i drafod a chytuno ar delerau gyda Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro.

- (4) Cael awdurdod i gyflwyno a derbyn ceisiadau grant ar gyfer y prosiect.
- (5) Cael awdurdod i gaffael a phenodi'r tîm dylunio ac ymgynghorwyr eraill yn ôl yr angen ar gyfer y prosiect.
- (6) Cael awdurdod i gyflwyno cais(iau) cynllunio ar gyfer y prosiect.
- (7) Cael awdurdod i'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd baratoi, gweithredu a chwblhau'r holl ddogfennaeth gyfreithiol sy'n ofynnol i hwyluso cyflawni'r prosiect.
- (8) Sicrhau cynaliadwyedd y prosiect yn y dyfodol.
- (9) Sicrhau bod Bwrdd Tref y Barri yn cael gwybod am gynigion.

**C133 DIWEDDARIAD AR RAGLEN GYFALAF GOFAL PLANT A'R
BLYNYDDOEDD CYNNAR 2025-28 (ACG) (CRAFFU – PWYLLGOR CRAFFU
DECHRAU'N DDA) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg yr adroddiad i ofyn am ganiatâd gan y Cabinet i gyflwyno Achosion Cyfiawnhad Busnes unigol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'u hymrwymiad i gefnogi a chryfhau'r sector gofal plant a dirprwyo pwerau penodol i swyddogion a enwir a deiliad Portffolio perthnasol sy'n ymwneud â chyflawni'r prosiectau'n lleol.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Birch bwysigrwydd cael gofal plant da yng nghyfnodau cynnar eu bywydau, yn enwedig os ydynt o gefndiroedd heriol, gan ei fod yn gwella eu posibiliadau addysgol a'u sgiliau cymdeithasol. Roedd dau brosiect cyfalaf eisoes wedi derbyn gwobrau canfod a byddai'r pedwar arall yn cael eu diweddarau wrth iddynt gael eu hystyried.

Dywedodd y Cynghorydd Williams fod cynlluniau o'r fath wedi cael effaith gadarnhaol ar y plant a'u teuluoedd ac wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r plant dan sylw.

Dywedodd y Cynghorydd Sivagnanam fod gweithio ar y cyd i ddarparu darpariaeth o'r fath yn hanfodol gan ei fod yn darparu gwerth am arian i drigolion Bro Morganwg. Roedd rhaglenni'r blynyddoedd cynnar yn hanfodol wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ar unrhyw gam cynnar.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

- (1) Y dylid rhoi caniatâd i gyflwyno Achosion Cyfiawnhad Busnes unigol i Lywodraeth Cymru a oedd yn tynnu sylw at yr angen i ddatblygu darpariaeth gofal

plant newydd ynghyd â chefnogi ehangu a/neu welliannau i ddarpariaeth gofal plant bresennol ym Mro Morganwg.

(2) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol ac Aelod y Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg, Prif Weithredwr, Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) i gymeradwyo defnyddio dyraniad Cronfa'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer prosiectau dan arweiniad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

(3) Y dylid awdurdodi Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau (mewn ymgynghoriad â Phennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) i drafod telerau ac amodau ar gyfer penodi cyflenwyr/darparwyr trydydd parti ar gyfer prosiectau dan arweiniad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

(4) Y dylid awdurdodi'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (mewn ymgynghoriad â Phennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151) i baratoi, cwblhau a gweithredu'r ddogfennaeth gyfreithiol ofynnol i alluogi penodi cyflenwyr/darparwyr trydydd parti ar gyfer prosiectau dan arweiniad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

(5) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i baratoi, cwblhau a gweithredu'r ddogfennaeth gyfreithiol ofynnol gyda thrydydd partïon.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) I symud proses Achos Cyfiawnhad Busnes ymlaen gyda Llywodraeth Cymru.

(2) I gael awdurdod i gymeradwyo defnyddio cyllid rhaglen Gyfalaf y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ar gyfer prosiectau dan arweiniad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

(3) I gael awdurdod i benodi cyflenwyr/darparwyr trydydd parti i'w penodi ar gyfer prosiectau dan arweiniad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant lle bo angen.

(4) I gael awdurdod i baratoi, cwblhau a gweithredu'r ddogfennaeth gyfreithiol ofynnol i alluogi cyflenwyr/darparwyr trydydd parti i gael eu penodi ar gyfer prosiectau dan arweiniad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant lle bo angen.

(5) I gael awdurdod i baratoi, cwblhau a gweithredu'r ddogfennaeth gyfreithiol ofynnol gyda thrydydd partïon.

C134 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD BRO MORGANWG (CDLIN) 2021-2036 – ADRODDIAD YMGYNGHORI AR DWF TAI YN Y BARRI (YGCCR) (CRAFFU – PWYLLGOR CRAFFU LLE) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i gynghori'r Cabinet ar y materion a

godwyd drwy gynrychioliadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 16 Mehefin 2025 a 14 Gorffennaf 2025 mewn perthynas â thwf tai yn y dyfodol yn y Barri.

At ei gilydd, gwnaeth 159 o unigolion a sefydliadau gynrychioliadau ar yr ymgynghoriad, gyda'r nifer uchaf wedi'i wneud ar gyfer safle Gogledd-orllewin y Barri gyda 122 o wrthwynebiadau, 3 chynrychiolaeth o gefnogaeth a 13 sylw. Codwyd nifer o bryderon dilys ynghylch tagfeydd traffig, bioamrywiaeth a llifogydd.

Derbyniodd y tir yn Heol Neptune ar Lannau'r Barri 14 o gynrychioliadau o gefnogaeth, 11 o wrthwynebiadau a 10 sylw gyda phryderon ynghylch tagfeydd traffig a chapasiti seilwaith. Derbyniodd y trydydd safle yn The Bendricks 10 cynrychiolaeth o gefnogaeth, 14 sylw a 27 o wrthwynebiadau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Sivagnanam at Baragraff 2.9 o'r adroddiad a oedd yn cyfeirio at yr angen am liniaru, craffu pellach ac ystyriaethau cynllunio priodol, yn ogystal ag ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid fel rhan o brosesau parhaus.

Roedd yr Arweinydd yn edrych ymlaen at y drafodaeth ddilynol yn y Pwyllgor Craffu Lle.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

- (1) Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.
- (2) Y dylid cytuno ar ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniadau brys fel y'i nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor i ganiatáu i'r adroddiad gael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Lle ar 18 Tachwedd 2025.
- (3) Y dylid cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu Lle oedd i'w ystyried ar 18 Tachwedd 2025. Ar ôl iddynt ystyried, bod y Pwyllgor Craffu Lle yn cyfeirio unrhyw argymhellion yn ôl at y Cabinet (20 Tachwedd 2025) i'w hystyried yn derfynol cyn i'r Cabinet gyfeirio'r adroddiad hwn ynghyd ag argymhellion y Pwyllgor Craffu Lle ac ymatebion y Cabinet at y Cyngor Llawn (1 Rhagfyr 2025) i'w ystyried a'i gymeradwyo. Os nad oes gan y Pwyllgor Craffu Lle unrhyw argymhellion pellach i'w cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried, bod yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn (1 Rhagfyr 2025) i:
 - a. gymeradwyo'r camau gweithredu a nodir yn yr Adroddiad Ymgynghori;
 - b. cymeradwyo cynnwys y tri safle tai posibl fel dyraniadau yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN).

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Amlinellu i'r Aelodau'r materion a godwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar Dwf Tai yn y Barri.

(2) Caniatáu i'r Pwyllgor Craffu perthnasol ystyried yr adroddiad ar 18 Tachwedd 2025.

(3) Caniatáu i swyddogion symud ymlaen â pharatoi'r CDLIN.

C135 ADRODDIAD CYNNYDD BLYNYDDOL RHEOLI ANSAWDD AER LLEOL 2025 (YGCGR) (CRAFFU – PWYLLGOR CRAFFU BYW’N DDA) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i ofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Adroddiad Cynnydd Blynyddol Rheoli Answydd Aer yn Lleol 2025 ar waith monitro ansawdd yr aer a gynhaliwyd yn 2024 i alluogi cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2025 fan bellaf.

O'r 41 lleoliad oedd yn cael eu monitro ar draws Bro Morgannwg gan ddefnyddio tiwbiau tryledu goddefol, nid oedd unrhyw safle yn torri'r amcan blynyddol cenedlaethol ar gyfer NO₂, sef 40µg/m³ na'r amcan 1 awr ar gyfer NO₂. Ar gyfer safleoedd monitro presennol, am y cyfnod o 2020 i 2024, roedd crynodiad cyfartalog blynyddol NO₂ ar ochr y ffordd wedi gostwng gan 15%.

Adolygodd swyddogion o'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir leoliad tiwbiau tryledu goddefol yn flynyddol gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg yn dilyn canllawiau'r Llywodraeth, gan gynnwys yr angen am unrhyw ofynion monitro newydd bob blwyddyn.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Y BOD y canlyniadau monitro a gasglwyd yn 2024 yn cael eu nodi.

(2) Y BOD Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2025, sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad, yn cael ei gymeradwyo i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Roedd yr adroddiad yn bodloni gofynion y broses Rheoli Answydd Aer Lleol (RAAL) statudol o dan Ran IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, ac roedd yr adroddiad yn cynnwys canlyniadau data ansawdd aer a gasglwyd yn 2024.